# y dinesydd

Tachwedd 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 276


# "Y papur bro gwaethaf yn y wlad!"

## meddai Golygydd *Barn*

Mewn erthygl yn rhifyn mis Medi o'r cylchgrawn Barn bu'r golygydd, Simon Brooks, yn hynod o feirniadol o Gymry Cymraeg Caerdydd ac ymhlith nifer o sylwadau ysgubol bu'n llawdrwm iawn ar ymdrechion y criw bychan o selogion sy'n gweithio'n gwbl wirfoddol i sicrhau bod Y Dinesydd yn gweld golau dydd o fis i fis. Galwodd ein papur bro "y gwaethaf yn y wlad" gan ofyn pam nad yw ugain mil o Gymry Cymraeg y brifddinas yn gallu cynhyrchu gwell.

Swyddogaeth papur bro ydy ceisio adlewyrchu'r hyn a ddigwydd mewn ardal gan gofnodi digwyddiadau bywyd bob dydd megis genedigaethau, priodasau, marwolaethau, ynghyd â hanesion o'r sefydliadau a'r cymdeithasau ac ati, a chredaf fod Y Dinesydd ar y cyfan yn cyflawni hynny. Nid da lle gellir gwell wrth gwrs a phe bai mwy o bobl yn cysylltu â'r papur byddai'r papur yn fwy cyflawn. Ond i alw'r Dinesydd y papur bro gwaethaf yn y wlad! Chi sydd â chysylltiad â'r clybiau chwaraeon, y cylchoedd cinio, clybiau Ifor Bach a'r Cameo, y corau a'r cymdeithasau niferus, beth amdani? Ydych chi'n fodlon i olygydd Barn ein pardduo a bwrw sen ar bapur bro cyntaf Cymru, yr un a roddodd arweiniad i weddill y wlad?

Bu Golygydd Barn yn byw yn ein plith am ychydig o amser yn unig cyn codi ei bac am borfeydd brasach! Hwyrach nad ydy e'n ymwybodol o'r ymdrechion yn y blynyddoedd a fu i hybu Cymreictod yn ein plith. Ces i fy ngeni a'm magu yn ardal Caerdydd pan nad oedd addysg Gymraeg yn bodoli, a'r capeli Cymraeg yn gymharol wan gyda llawer o'r aelodau yn siarad Saesneg â'i gilydd ac yn magu eu plant yn ddi-Gymraeg. Yr unig le seciwlar i Gymry ifanc gyfarfod oedd Tŷ'r Cymry, Heol Gordon, a daeth y lle hwnnw yn ganolfan trefnu priodasau ardderchog fel y gall nifer o Gymry hŷn y ddinas dystio! Roedd bri ar Gymdeithas y Cymrodorion y pryd hwnnw ac roedd yr Urdd yn weithgar mewn nifer o ysgolion. Ond, dyna oedd hyd a lled Cymreictod yng Nghaerdydd y pryd hwnnw.

parhad ar dudalen 8

**Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd***

**Dewch i gwyno! Dewch i gefnogi!**

**Nos Iau, 21 Tachwedd 2002,**
**yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina**
**am 7.30 p.m.**

**Cyfarfod cyhoeddus sy'n agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau agos.**

## Cymru 2 Italia 1

**Yr Eidal aeth yn ffradach – wedi gweld**
**Ein dwy gôl amgenach,**
**Un eiliad fawr, un wlad fach**
**A'i haeddu, - gwyrth ryfeddach.**



**Aled Gwyn**

## Amser Sglefrio!

Yn dilyn llwyddiant Gwyl Gaeaf Caerdydd y llynedd bydd cyfle arall i fwynhau'r miri y tu allan i Neuadd y Ddinas unwaith eto eleni. Y llawr sglefrio fydd y canolbwynt a bydd adloniant i'r plant, bwyd a diod, bandiau'n chwarae bob nos Wener a Sadwrn, a phob nos Fercher bydd gorsaf radio Red Dragon yn darlledu'n fyw o'r safle.

Mae Gŵyl y Gaeaf ar agor o Dachwedd 30 hyd at Ionawr 5. Bydd y llawr sglefrio ar agor o 10.30am hyd 10pm bob dydd, a hyd at 11.30pm ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn gydag oriau arbennig ar Noswyl Nadolig (10.30am - 5.30pm), Dydd Nadolig (ar gau), Gwyl San Steffan (10.30am - 5.30pm) a dydd Calan (10.30am - 5.30pm). Pris y sglefrio - gan gynnwys y sgidiau - fydd £6 i oedolion a £4 i blant (12 oed a iau) a chonsesiynau. Ar Nos Galan £6 fydd y gost i bawb.

Mae tocynnau ar werth o Ticketline yn Stryd Westgate, rhif ffôn (029) 2023 0130 ac am ragor o wybodaeth ffoniwch Cysylltu â Chaerdydd ar (029) 2087 2088.



# Y Dinesydd

**Tachwedd, Rhif 276.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Hywel Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Gwilym Roberts

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Rhag. 2002/Ion. 2003 erbyn 22 Tachwedd at:**
Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6EF (Ffôn: 2069 3254)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.
Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN


Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 36** **Tachwedd 2002**



**Ar Draws**

1. Mwg o'r de yn troi'n chwerw (7)
5. Arthur yn y llys yn cael dau beint (5)
8. Ffeindio'r gŵr cyntaf mewn lle cyfaddas (3)
9. Cynefino ag arwain (9)
10. Tafell sy'n rhoi mynediad (5)
12. Creu arf i 8 yn bwyllog (7)
13. Symud glo Dei i le sâff! (6)
15. Fel y cant droi fel polyn (6)
18. "Gwynt yr hydref ruai ____
Crynai'r dref i'w sail" (Crwys) (7)
19. Ffin dros aur 17 (15)
20. A ddaw ildio'r cen cyn coelio? (9)
21. Da neu wallgof yn Lloegr (3)
22. Mae'r swynwr yn cefnu ar niwed (5)
23. Taw! Yn y graig mae lle i orffwys dy ben (7)

**I Lawr**

1. Y llanc o'r rhiant ar dir lefel (7)
2. Ffeindio gwraig 8 yn Nhrefach (3)
3. Cael cam yn crychu hances (5)
4. Dal fi rywfodd rywsut Simon a byddaf yn anhapus (6)
5. Mae'n sicr taw felly mae bod yn foesgar (7)
6. 'Wel dyma'r Gwrthrych cun
__ ___ ___ a'r lle' (W.W.) (1, 4.1, 3)
7. Amser a'r dydd heb ddechrau, fel peth yn mynd o amgylch (5)
11. 'Ymgrymu wnaf, a rhof y ____
__ ___ mawr.' (R.W.) (4, 1'1, 3)
14. Mae ein lle ni rywsut yn dwyn elw (7)
16. A oes gan hwn fodur a chi o Loegr (7)
17. A geir ffa crin wedi berwi yn y wlad hon? (6)
18. Ar yn ail mewn un car crand cewch wrthodiad (5)
19. 'Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r ____.' (R.W.) (5)
21. A yw'r ci hwn yn codi o'r baw? (3)

**Atebion Croesair 35**

**Ar draws:** 1. Am Brynwr trist; 7. Realiti; 8. Gloyw; 9. Wyth; 10. Ysgrifen; 12. Am doffi; 13. Didaro; 15. Allforion; 17. Gwe; 19. Arnat; 20. Iorwerth; 21. Meilt o'r cwmwl du. **I Lawr:** 1. Amrywiad; 2. Buarth; 3. Weilgi; 4. Tegeirian; 5. Idole; 6. Tlws; 10. Ymffrostio; 11. Gobeithlu; 14. Jibinc; 16. Llinell; 17. Gwefi; 18. Balm.

Derbyniwyd deg ymgais a naw ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gwilym Lloyd Edwards, Llanuwchlyn. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien; H.O.Hughes, Pwllheli; Idwal Hughes, Mynydd Bychan; D Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Margaret Jones, Rhiwbina; Dilys Pritchard-Jones, Pwllheli; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd a Rachel Simpson, Llandyrnog.

**Cystadleuaeth Tachwedd 2002:** Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 22 Tachwedd 2002.

## SARA AR DDECHRAU'R WYTHNOS



Mae wyneb newydd wedi bod yn croesawu dysgwyr i'r rhaglen newyddion **Yr Wythnos** (Dydd Sul ar S4C), wrth i Sara Evans gymryd y llyw yn ddiweddar.

O Gaerdydd y daw Sara yn wreiddiol. Bu'n gweithio yn BBC Cymru ers dros dair blynedd bellach, yn yr Uned Wleidyddol a Newyddion Radio Cymru. Er iddi gyflwyno bwletinau radio, hwn yw'r tro cyntaf iddi gyflwyno rhaglen newyddion ar deledu.

"Mae'n sialens enfawr," meddai Sara, 26 oed. "Rydw i'n edrych ymlaen at weithio ym myd teledu am gyfnod."

Mae Sara yn hyderus bod y rhaglen o gymorth i ddysgwyr, gyda geirfa yn ymddangos ar y sgrin. Ond yn ogystal â bod yn rhaglen ar gyfer dysgwyr, mae **Yr Wythnos** hefyd yn rhaglen newyddion werthfawr sy'n dod â'r newyddion diweddaraf o Gymru a'r byd, gan gynnwys straeon sydd wedi torri dros y Sul.

"Mae modd i wylwyr ddychwelyd at y rhaglen dro ar ôl tro hefyd," meddai Sara. "Os ydi pobol wedi methu'r rhaglen ar y teledu neu'n awyddus i gymryd cip arall arni, neu ail-edrych ar yr eirfa, mae modd gwneud hyn trwy safle **Yr Wythnos** ar BBC Cymru'r Byd. Yma, mae'r rhaglen yn cael ei dangos yn gyflawn ac mae gwefan addas i gydfynd â'r rhaglen."

Yn ôl y cynhyrchydd Elin Cadifor mae'r ymateb wedi bod,yn galonogol.

"Rydyn ni wedi bod i gwrdd â dysgwyr ac maen nhw'n mwynhau'r rhaglen. Ond rydyn ni'n dal yn awyddus i glywed mwy o sylwadau ac yn annog pobl i'n e-bostio ni ar yrwythnos@bbc.co.uk".

## Cyflwyno Leah Rhydderch - Menter Caerdydd



Fy enw yw Leah Gwyn Rhydderch ac rwyf newydd gael fy mhenodi yn Swyddog Cysylltiadau Busnes Menter Caerdydd. Gwaith y Fenter yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws Caerdydd, yn codi ei phroffil ym mhob agwedd o fywyd y gymuned. Hanfod fy swydd i fydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog ym musnesau ardal Caerdydd a phwysleisio fod yr iaith Gymraeg yn iaith fyw ac y byddai presenoldeb yr iaith yn fantais gystadleuol iddynt

Rwy'n byw yng Nghaerdydd ond treuliais y rhan fwyaf o'm hieuenctid yn Nhudweiliog ger Pwllheli, Pen Llŷn, ardal yn llifeirio o laeth a mêl!. Bûm yn ddisgybl yn ysgolion Tudweiliog, Botwnnog a Choleg Penrallt Pwllheli cyn mentro i'r ddinas i astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Graddiais eleni a threulio fy ngwyliau haf yn teithio o gwmpas Ewrop.

Rwy'n Gymraes i'r carn a theimlaf bod byw ym Mhen Llŷn wedi sicrhau fod Cymreictod a'r iaith Gymraeg yn agos iawn at fy nghalon. Y mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn i mi. Y mae galw mawr am statws swyddogol i'r iaith Gymraeg a hynny yn enwedig yn y sector breifat. Mae'r iaith Gymraeg yn iaith ddeinameg sy'n tyfu. Dylid manteisio ar y cyfle felly i gyflwyno'r iaith i fusnesau gan bwysleisio arf mor bwysig ydyw ym myd cystadleuol busnes. Nid ffosil yw'r iaith Gymareg ond iaith sydd yn ffynnu, ac edrychaf innau ymlaen fel rhan o dîm Menter Caerdydd i'w hyrwyddo a'i hamddiffyn a rhannu awydd pobl leol i weld mwy o ddefnydd ohoni.

## Merch y Gelli



Dyma deitl nofel ddiweddaraf Mrs Fflorens Roberts, Radur, un o aelodau hynaf Eglwys y Crwys sydd bellach dros ei deg a phedwar ugain mlwydd oed. Rydym yn hen gyfarwydd â'i chyhoeddiadau eraill megis *Mae Bod yn Fyw yn Fawr Ryfeddod* (1996) a *Y Rhosyn Coch* (1997), gweithiau sydd wedi ennill clod iddi. Cyhoeddwyd *Merch y Gelli* gan Wasg Pantycelyn, Caernarfon, a gosodir y stori'n bennaf yng nghefndir y Gymru Gymraeg wledig yn y ddeunawfed ganrif.

Angharad Jâms yw prif gymeriad y nofel, merch alluog Jâms Davies ac Angharad Humphreys, ac y mae ychydig o'i hanes ar gael ar gof a chadw. Fe'i ganed yn Y Gelli Ffrydiau ger Y Mynydd Mawr yn Nyffryn Nantlle a mwynheuai ei theulu dras anrhydeddus yn Eryri. Cafodd addysg dda, daeth yn hyddysg yn y clasuron ac yn ôl tystiolaeth lawysgrifol fe'i cyfrifid hefyd yn fardd o fri. Yn y nofel hon cawn hanes ei dyddiau cynnar yn Nyffryn Nantlle a Dolwyddelan, lle trigai rhai o'i pherthnasau, a'i bywyd priodasol â William Prichard Cwm Penamnen, Dolwyddelan, a oedd bron ddeugain mlynedd yn hŷn na hi.

Y mae'r nofel hon wedi'i hymestyn a'i haddasu o ran cyfnod i gydasio â stori ddychmygol sy'n disgrifio profiadau Angharad yn ystod ei chyfnod addysgol mewn coleg y gyfraith yn Nulyn. Yno, daeth i gysylltiad â Shaun Delaney, cyd-fyfyriwr o dras Gwyddelig a Ffrengig. Ceir cip ar gyfnod cyffrous y Chwyldro Ffrengig a dadlennir cefndir teuluol yn Eryri a Nanconwy. Cyflwynir y stori mewn arddull rywiog a disgrifir cymeriadau a golygfeydd yn lliwgar ac â chyfoeth o eirfa ac ymadroddion gwlad Arfon. Ygrifennwyd y nofel gan awdures sy'n dilyn ôl traed ei diweddar briod O.E. Roberts a enillodd y Fedal Ryddiaith ddwywaith yn yr Eisteddfod Gnedlaethol. Nofel fer i'w chymeradwyo yw hon ac y mae'n fwynhad i'w darllen. Gyda dychymyg byw nyddir ynddi ffuglen o gwmpas y ffeithiau sydd ar gael am arwres y stori.

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2003

***Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith***

Mae dydd Llun 2 Rhagfyr yn prysur agosau a dyma'r dyddiad cau ar gyfer dwy o gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Bydd Gwobr Goffa Daniel Owen am nofel yn cael ei beirniadu gan Sioned Davies, Marion Eames a Gwerfyl Pierce Jones a'r wobr anrhydeddus yw £5,000.

Beirniaid y Fedal Ryddiaith yw Eirug Wyn, Jane Edwards a Gwyn Erfyl ac ynghyd â'r fedal rhoddir gwobr ariannol o £750. Gofynnir am gyfrol o ryddiaith heb fod dros 40,000 o eiriau gyda chysylltiad amaethyddol.

Cofier felly am 2 Rhagfyr.

## Cadeirydd Pwyllgor gwaith Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau 2003

Croeso i'r Parchedig Gwynn ap Gwilym, ficer ardal Mallwyd, Bro Ddyfi i ardal Caerdydd ar ei benodiad fel Swyddog Iaith yr Eglwys yng Nghymru yn eu swyddfa yn y brifddinas. Bydd hefyd yn gwasanaethu fel ficer yn ardal Pen-y-Bont-ar-Ogwr.

## Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd:

Yn wahanol i'r mwyafrif o Gymry'r Eglwys Newydd, ymddengys bod Dr Simon Brooks (Barn) wedi clywed amdanom! Dim ond 15 ohonom ddaeth ynghyd yn festri Bethel, Heol Penlline i groesawu'r Parchedig Gareth Rowlands, Bethlehem Gwaelod-y-Garth a'i gasgliad anhygoel o duniau (tins!) bach a mawr ac o bob lliw dan haul. Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi ymddeol heblaw am Eirian, fi a Dr Wyn James, cadeirydd pwyllgor Y Dinesydd. Mae angen wynebau newydd, o ba oed neu siap bynnag, yn druenus!

Daw Côr Plant Caerdydd atom nos Wener, 15 Tachwedd, yna Côr Hamdden Caerdydd nos Wener 6 Rhagfyr - y ddau gyfarfod (casgliad ymadawol elusengar) i ddechrau am 7.30.

Er mwyn popeth, dewch i gefnogi os gwelwch yn dda neu fe fydd Wyn, Eirian a fi yn cynnal cyfarfod mewn cefn car modur cyn bo hir !!

**Gwilym Dafydd**

## Cydymdeimlo â:

- theulu y diweddar Angela Joy Williams, gweddw y barnwr David Williams a fu farw ar 27 Medi. Bu'r angladd yn Eglwys yr Holl Saint Cyncoed ar 4 Hydref ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- ag Angharad Ellis, Peredur (Pwt) Evans, a Marged Cartwright a'u teuluoedd ar golli eu mam, Mrs Anne Evans, Drefach, Llanelli a fu farw ar 25 Hydref wedi gwaeledd byr.

## Lawnsio Cofiant i Syr Cyril Fox

Yn ddiweddar yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays lawnsiwyd cofiant i Syr Cyril Fox, cyn gyfarwyddwr yr Amgueddfa, a ysgrifennwyd gan ei fab Charles Scott-Fox. Ganwyd Syr Cyril Fox yn Chippenham, Wiltshire yn 1882. Gadawodd yr ysgol yn 16 oed i fod yn arddwr. Yna, yn 36 oed aeth i Goleg Magdalene yng Nghaergrawnt i astudio am ddoethuriaeth mewn archaeoleg. Daeth yn gyfarwyddwr Angueddfa Genedlaethol Cymry ddeunaw mis ar ôl cael ei benodi'n bennaeth yr Adran Archaeoleg ac yn ystod ei gyfnod yn yr Amgueddfa gwelodd agor yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Bu'n byw yn Rhiwbeina am flynyddoedd.

## Llongyfrachiadau i :

- Ana Clara Cantero Simms a'i gŵr Dafydd Warren, Sblot, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Ruri Gruffudd ddechrau mis Medi.
- Gwilym a Non Tudur Boore, Yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth eu mab Gethin Taf yn Ysbyty'r Brifysgol ar 4 Hydref. Ŵyr i Roger ac Anne Boore a Glyn a Carys Williams, Wrecsam.

## Dymuniadau da i:

Dr Christine James, Yr Eglwys Newydd a darwyd yn wael tra'n ymweld â'r Unol Daleithiau yn ddiweddar. Roedd Christine, yng nghwmni Dr Sioned Davies a Manon Rhys, yn mynychu'r Gynhadledd Geltaidd ym Mhrifysgol Harvard yn Cambridge, Massachusetts. A hithau wedi cyflwyno ei phapur a'r tair yn barod i droi am adref, yn lle anelu am faes awyr Boston rhuthrwyd Christine i'r ysbyty. Llwyddodd Wyn i ymuno â'i wraig o fewn oriau i glywed y newyddion amdani. Fe gymer hi beth amser i Christine adfer ei nerth yn llwyr ond fe ddymunwn ni wellhad cyn fuaned â phosib iddi.

## Y Cyhoedd yn tyrru i'r Amgueddfa

Ers dileu'r tâl mynediad i Amgueddfa Sain Ffagan a'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays ac Amgueddfeydd eraill yng Nghymru mae'r cyhoedd wedi llifo i mewn ac yn ystod y flwyddyn 2001/2002 bu dros filiwn o ymwelwyr yn yr wyth amgueddfa yng Nghymru. Bu dros 600,000 yn Sain Ffagan a thros 300,000 yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays.

## Hen ffonau symudol a chetris argraffu yn helpu dioddefwyr cancr

Gellir nawr ddefnyddio hen ffônau symudol a chetris argraffu (*printer cartridges*) i helpu'r elusen Gofal Cancr Marie Curie.

Mae Marie Curie yn casglu'r eitemau hyn, a deflir o'r neilltu fel arfer, ac yn eu cyfnewid am arian er mwyn ariannu gwaith nyrsio ac ymchwil. Gall 6 chetrisen inc neu 2 ffôn symudol dalu am awr o wasanaeth nyrs Marie Curie.

Yn ôl ffigurau diweddar mae'n debyg bod tua 80 miliwn o hen ffonau symudol yn gorwedd o gwmpas y lle heb eu defnyddio. Ystyriwch y gwastraff felly o gofio y bydd tua 40% ohonom yn dioddef o gancr rywbryd neu'i gilydd yn ystod ein bywydau ac y bydd un o bob pedwar o'r rheini yn marw.

Mae'r un peth yn wir am y cetris inc o argraffyddion cyfrifiadur. Ar hyn o bryd tua 5% yn unig sydd yn cael eu hailgylchu tra bod gwerth £57 miliwn yn cael eu taflu ar y domen sbwriel. Gall 30 cetris dalu am shifft nyrs Marie Curie yn un o'r cartrefi.

Dylid anfon hen ffonau a chetris yn rhad ac am ddim at: *Eurosource (Marie Curie) Rhadbost Eurosource.* Os oes gennych 6 eitem neu ragor ffoniwch Eurosource ar 08451 30 20 10 er mwyn trefnu eu casglu yn rhad ac am ddim. Dylai unrhywun a hoffai gael bocs casglu eu hunain (ysgolion, swyddfeydd, eglwysi ac ati) gysylltu ag Eurosource yn yr un modd.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Colin Thompson ar 01324 678900 (ffôn symudol 07811 188529).

## Sefydlu Menter Iaith arall

Erbyn hyn mae 19 o Fentrau Iaith wedi eu sefydlu yng Nghymru i hybu defnydd o'r iaith yn y gwahanol ardaloedd a'r fenter ddiweddaraf yw Menter Bro Morgannwg. Am ragor o wybodaeth am y fenter hon cysylltwch â'r Cadeirydd, Janet Davies ar 029 2066 8081.

## Agor Meddygfa Canna

Agorwyd meddygfa newydd sbon yn 27 Wyndham Crescent gan y Farwnes Ilora Finlay o Landaf ar Fedi 14eg. Mae'n gwasanaethu ardal Treganna, Pontcanna, Llandaf a'r Tyllgoed ac yn adeilad newydd, pwrpasol gyda lle parcio i 22 o geir a lle parcio beiciau yn ogystal â bod ar ffordd y Bws 61.

Mae'n addas ar gyfer y sawl sydd ag anabledd corfforol gyda rhamp a lifft i'r llawr cyntaf ac mae yna ddigon o le yn yr ystafell aros gyda lle chwarae i'r plant.

Mae dwy o'r meddygon, Dr Siwan Evans a Dr Bethan Herbert yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn awyddus i gynnig eu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae Dr Alan Stone yn ddysgwr profiadol.

Am wybodaeth pellach ffoniwch 029 20390722 neu edrychwch allan am ein gwefan newydd fydd ar gael cyn bo hir.



# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbina

Diolch i bawb gyfrannodd nwyddau ac arian tuag at ffair flynyddol Cymdeithas y Beibl a gynhaliwyd yn festri'r Crwys. Roedd elw stondin boteli Bethel a Salem yn £100.

Llongyfarchiadau i Nerys Jones, yr Eglwys Newydd am benderfynu treulio rhan o'i blwyddyn 'rydd' cyn mynd i'r coleg yn cynorthwyo pobol di-freintiedig yn un o wledydd Affrica. Mae Nerys yn treulio o leiaf dri mis gyda mudiad Rally International yn Ghana.

Dymunir gwellhad buan i Miss Margaret Turner, Rhiwbina, sydd wedi dychwelyd gartref ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Treforys.

## Y Tabernacl

### Pregeth Brawf Tim Richards

Bu'n ddydd o lawen chwedl yn y Tabernacl pan gawsom y cyfle i wrando ar **Timothy Richards** yn arwain ei oedfa gyhoeddus gyntaf, a barn pawb a oedd yn bresennol oedd iddo lwyddo i wneud hynny gyda graen ac arddeliad. Ers hynny, arweiniodd oedfaon yn Nhonyfelin, Caerffili ac yn y Tabernacl, Caerfyrddin, gan adael argraff gadarnhaol ar bawb iddo gael ei alw i fod yn dyst i'r Efengyl. Bellach mae wedi cychwyn ar ei astudiaethau academaidd o dan nawdd y Coleg Gwyn ym Mangor. Bu nifer dda o'r Tabernacl mewn oedfa yng Nghalfaria, Clydach lle roedd aelodau'r eglwys yno am ddathlu'r ffaith bod Tim, Siwan a'r plant yn byw yn eu plith.

### Miri Medi

Bu nifer o deuluoedd yr eglwys yn mwynhau penwythnos yng Nglanllyn ym Miri Medi. Fe wnaeth pawb fwynhau eu hunain gan ddatblygu perthynas gyda theuluoedd eglwysi eraill. Diolch i Marc Jon a Rhian am drefnu hyn ar ran aelodau Ysgol Sul y Tabernacl.

### Croeso'n ôl

Roedd yn dda gennym groesawu **Mari Rogers** yn ôl i Gaerdydd ar ôl bod yn byw am gyfnod yn y Gorllewin. Mae ei mab, **Hywel** yn aelod yn yr eglwys, ac mae Mari yn byw yn Heol Hir. Bu farw Graham, ei phriod ychydig flynyddoedd yn ôl ac fe obeithiwn y bydd dychwelyd i'r brif-ddinas yn gam cadarnhaol iddi.

## Ebeneser

Yn ystod misoedd yr haf fe briododd tri o'n haelodau. Priododd Ffion Tudur â Rhys Meilir Davies ddydd Gwener 26 Gorffennaf yn Ebeneser, Caerdydd. Y diwrnod canlynol priododd Jonathan Wyn Jones ag Elin Dwyryd yng nghapel Hebron, Rhewl, Llangollen. Yna ym mis Awst priododd Rhodri Moseley ag Anna Lara Milanese yn yr Eidal, yn abaty benedictinaidd hynaf y wlad, sef Abaty Sesto al Reghena ger Pordenone. Llongyfarchiadau calonnog iddynt a phob bendith a dymuniad da i'r dyfodol.

Cynhaliwyd oedfa arbennig nos Sul 6 Hydref, lle derbyniwyd pedair o ferched yr Eglwys yn gyflawn aelodau, sef Carys Burgess, Elin Fouladi, Llinos Williams a Nia Williams. Fe'u cyfarchwyd a'u croesawu ar ran yr Eglwys gan Emrys Evans ac Eira Jones. Yno hefyd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth roedd Sian Burgess, Meilyr Hughes, Tomos Dafydd a Lisa Williams.

Ddydd Sul 20 Hydref bedyddiwyd Harri Rhys Lewis, mab Blodwen a Robert Lewis a brawd bach Sara. Ein dymuniadau gorau iddynt oll.

## Eglwys Dewi Sant

Ddechrau mis Hydref, cynhaliwyd oedfaon Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Roedd gwasanaeth y plant yn y bore, pan dderbyniwyd rhoddion tuag at elusen sy'n rhoi cymorth i bobl Romania. Yn ogystal â'r nwyddau, casglwyd £175 at yr elusen. Ar ôl y gwasanaeth, daeth y gynulleidfa at ei gilydd yn Neuadd yr Eglwys ar gyfer Cinio'r Cynhaeaf.

Y pregethwr yn ystod yr Hwyrol Weddi oedd y parchedig Barry Thomas, ficer Cilcennin ar hyn o bryd, ond a fu'n gweinidogaethu ym Monte Carlo am gyfnod! Cafwyd pregeth rymus ganddo.

Aeth y Clwb Cerdded am dro i ben Mynydd Caerffili gan ddechrau a gorffen y daith ym mharc Cefn Onn. Edrychwn ymlaen at y daith o Benarth i Sili y tro nesaf.

## Eglwys y Crwys

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y plant fore Sul 6 Hydref dan arweiniad Mrs. Ceri Innes-Parry, arolygydd yr Ysgol Sul. Cafwyd anerchiad i'r plant gan y Parch. Catrin Roberts a ymaelododd yn ddiweddar yn ein plith gyda'i gŵr y Parch. Ifan Roberts. Daeth Catrin â'i ffrind, Owi'r oen, gyda hi a bu o gymorth mawr iddi i drosglwyddo neges amserol a chofiadwy i'r plant.

Nos Lun 7 Hydref daeth Eleri Morgan o Adran Newyddion y BBC i ddiddanu aelodau'r Grwp Merched gyda sgwrs am atgofion bore oes yn ystod cyfarfod cynta'r tymor.

Nos Fercher 9 Hydref cynhaliwyd cyfarfod undebol dwyieithog gan Gymdeithas y Beiblau. Cymerwyd rhan gan aelodau o nifer o eglwysi'r ddinas a chafwyd anerchiad yn atgoffa'r Gymdeithas am ei gwreiddiau Cymreig gan ein Gweinidog.

Nos Wener 11 Hydref traddodwyd sgwrs ddiddorol dros ben yn y Gymdeithas gan Elwyn Hughes ar Horatio Thomas - Pentyrch, 'periglor paradocsaidd'. Mwynhaodd y dyrfa luosog hanes y gŵr rhyfedd hwn a chafwyd blas ar hanes Pentyrch a'r cylch ganrif a hanner yn ôl.

Bore Sadwrn 19 Hydref croesawyd ni i fore coffi a drefnwyd gan y Cylch Cymorth yng nghartref Y Parch. a Mrs. Glyn Tudwal Jones.

## Minny Street

Teimladau cymysg iawn oedd ym Minny Street ddiwedd Medi a dechrau Hydref - cymysgedd o dristwch, llawenydd, hiraeth a chynnwrf. Daeth ail gyfnod gweinidogaeth y Parchedig Eifion Powell i ben ym mis Medi a daethom ynghyd fel aelodau i ddiolch am ei wasanaeth clodwiw nos Sul, 22 Medi. Cyflwynwyd tysteb a threfniant o blanhigion fel arwydd o'n gwerthfawrogiad a'n dymuniadau gorau i'r Parchedig Eifion a Mrs Catherine Powell. Os taw siom oedd colli arweiniad y Parchedig Eifion Powell, llawenydd ym mis Hydref oedd cael croesawu ein gweinidog newydd, y Parchedig Owain Llyr Evans. Daw Owain Llyr atom o gylchoedd Rhos, Ponciau a Wrecsam a chynhaliwyd ei Oedfa Sefydlu ym Minny Street brynhawn Sadwrn, 5 Hydref. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Eifion Powell, a chymerwyd rhan yn yr oedfa gan nifer o gyfeillion, gyda'r Parchedig Peter Dewi Richards yn pregethu.

Croesawodd y plant a'r bobl ifanc Owain Llyr a'i briod, Lona, yn yr Oedfa Ddiolchgarwch y bore Sul canlynol. Daeth penwythnos cofiadwy i ben o gylch Bwrdd y Cymun yn yr oedfa hwyrol.

Ganwyd dau o blant bach i'r aelodau dros yr wythnosau diwethaf: llongyfarchiadau i Nia a David Thompson (Creigiau) ar enedigaeth Ffion Elin - chwaer fach i Steffan, a hefyd i Ruth ac Aled Williams (Thornhill) ar enedigaeth Ioan Wyn - brawd bach i Elwyn. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

**THE INTERNATIONAL FESTIVAL OF MUSICAL THEATRE IN CARDIFF**

**YR ŴYL RHYNGWLADOL THEATR GERDD YNG NGHAERDYDD**

Mae'n hysbys i'r mwyafrif mae'n debyg i'r Ŵyl hon gael ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 13 Hydref a 3 Tachwedd - y digwyddiad rhyngwladol mawr cyntaf o'i fath i'w gynnal yn unman erioed er mwyn dathlu un o'n ffurfiau celfyddydol mwyaf poblogaidd. Yn ystod y cyfnod daeth Caerdydd yn ganolfan fyd-eang i weithiau cewri'r theatr gerdd o Richard Rodgers i Cy Coleman, ac o Cole Porter i Stephen Sondheim. Braint disgyblion ac athrawon Ysgol Stanwell, Penarth oedd cael bod y cyntaf erioed y tu allan i'r West End a'r Unol Daleithiau i gael yr hawl i gyflwyno *Les Misérables* ac roedd Cameron Mackintosh ei hun yno i dystio i gyffro'r noson agoriadol ac i ryfeddu at y doniau a droediodd lwyfan theatr newydd ysblennydd yr ysgol. Bythgofiadwy, ac mae pawb a fu'n glwm wrth y cynhyrchiad yn teilyngu'r ganmoliaeth fwyaf.

Yn anffodus, o ran diben yr erthygl hon, mae'r canmol yn dod i ben gyda'r ychydig eiriau uchod oherwydd unwaith eto mae rhai o bobl dda prifddinas Cymru, dan gadeiryddiaeth y Bonwr Vincent Kane, wedi llwyddo i drefnu gŵyl ryngwladol ac ar yr un pryd anghofio'n llwyr am eu hetifeddiaeth gerddorol eu hunain. Ar 18 Hydref trefnwyd noson o uchafbwyntiau o'r sioeau yn Neuadd Dewi Sant gyda nifer o ysgolion cyfun y ddinas a'r de-ddwyrain yn cymryd eu tro i gyflwyno'r adloniant. Welwyd mo'r un disgybl o ysgol Gymraeg ar y llwyfan heb sôn am glywed nodyn o gerddoriaeth a oedd ag unrhyw arlliw o'r lleol yn perthyn iddo. (Mae'n debyg y dylem ni fod yn ddiolchgar am Eisteddfod yr Urdd a bodloni ar y cyfleon a ddaw i ran ein pobl ifanc yn yr ŵyl honno.)

Mewn rhwystredigaeth felly dyma droi at wefan yr Ŵyl mewn anghrediniaeth lwyr y gallai'r trefnwyr fod wedi anwybyddu cerddoriaeth Cymru'n llwyr. Yr unig awgrym nad yn Los Angeles neu Lundain yr oedd yr ŵyl yma'n cael ei chynnal, ond yn hytrach yng Nghaerdydd, oedd y modd sarhaus y cyfieithwyd enw'r Ŵyl - Yr Ŵyl Rhyngwladol Theatr Gerdd - anghywir, annigonol ac annerbyniol !

Ond un eiliad, beth oedd hwn? Sioe o'r enw *Exit Allan* - wel, byddai sioe ddwyieithog yn well na dim am wn i. Ond na, wele'r awdur, Richard Stilgoe, yn sôn am ei ysbrydoliaeth: *"The first thing you see on arriving at Cardiff station is a sign saying EXIT ALLAN, so that's the title of the show. It's set in a crematorium during Allan's funeral, and it will be really funny because not enough musicals are nowadays. It's called "EXIT ALLAN" because the Festival wanted something really way out."* A dyma, hyd y gwela i, unig gyfraniad y Gymraeg i Ŵyl gerdd ryngwladol yng Nghaerdydd - ysbrydoliaeth i Richard Stilgoe, yn ei anwybodaeth, greu celfyddydwaith *"really way out"*.

Y bwriad yw i'r Ŵyl fod yn ddigwyddiad blynyddol o hyn allan, wrth i Gaerdydd baratoi yn obeithiol at fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn y flwyddyn 2008. Digon o amser felly i ni atgoffa Vincent Kane a'i gyd-bwyllgorwyr am dalentau cynhenid cenedl y Cymry. Wedi'r cyfan, onid unawd allan o sioe gerdd Gymraeg gyfoes gyflwynwyd gan enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel yr Urdd yn Theatr Stanwell 'nôl ym mis Mehefin? Rhyfedd o fyd!

## Cymrodorion Caerdydd

Cafwyd noson arbennig o gofiadwy yn festri Minny Street i agor rhaglen tymor newydd Cymrodorion Caerdydd ddechrau mis Hydref. Ein llywydd newydd yw'r Dr Hefin Jones, yr ydym ni yng Nghaerdydd wedi cyrn elwa ar ei wasanaeth er pan ddychwelodd i'n plith ddwy neu dair blynedd yn ôl.



Rhaid yn y fan hon ddiolch i'r gŵr a arwisgodd Hefin â chadwyn y Llywydd, sef y Dr Wyn James, Llywydd y llynedd, am ei gyfraniad mawr i weithgareddau'r Cymrodorion.

I'r sawl ohonom sy'n adnabod Hefin ac yn gwybod am ei gyfraniad academaidd ym myd bioleg a hefyd mewn pethau yn ymwneud â'r amgylchedd, nid syndod i ni oedd iddo ddewis yn destun "Rhyw hoffter anesboniadwy o chwilod" – sef cyfieithiad o un o ddywediadau'r biolegydd enwog J.B.S. Haldane.

Ond sut byddai'n trin ei destun? Daeth yn agoriad llygad o'r mwyaf pan aeth ati, gyda lluniau nodedig a'i lu o gyfeiriadau gweledol i agor ein llygaid. Ond at hynny, dyma bennill ar ôl pennill o weithiau ein beirdd i agor ein clustiau – y cyfan yn agor ein hymwybod i fyd rhyfeddol y mil myrddiynau o bethau mân a bach sy'n fwrlwm o'n hamgylch, a ninnau bron bob munud o'n hoes yn gwbwl anymwybodol o'r cyfoeth byw o dan ein traed ac o'n hamgylch. Roedd y cyfan yn cynnig deimensiwn cwbl newydd i ni.

## Ymholiad

Annwyl *Y Dinesydd*,

Er fy mod bellach yn byw ac yn gweithio yng Ngwynedd ers blynyddoedd, rwyf yn enedigol o Gaerdydd ac yn dal i gadw cysylltiad â'r ddinas o bryd i'w gilydd.

Mae gennyf ymholiad ynglyn â'r flwyddyn 1939 yng nghyswllt ymweliad y cyfansoddwr/pianydd Rachmaninoff â'r ddinas. Yn ôl copi o hysbysiad a welais mewn rhifyn o'r 'South Wales Echo' dyddiedig 11 Mawrth y flwyddyn honno, bu Rachmaninoff yn perfformio yn Neuadd Gyngerdd yr 'Empire' yng Nghaerdydd.

Byddwn yn hynod ddiolchgar pe bai gan unrhyw rai o blith darllenwyr *Y Dinesydd* wybodaeth neu atgofion personol ynglyn â'r digwyddiad hwn. Er enghraifft, pa ddarnau y bu Rachmaninoff yn eu chwarae ar y pryd a sut adolygiadau gafodd y datganiad. Yn ogystal, rwyf yn awyddus i gael gwybodaeth ynglyn â'r 'Empire' - ym mha ardal o Gaerdydd yr oedd y neuadd honno, a yw'n dal i sefyll, ac os felly, beth yw defnydd yr adeilad erbyn hyn?

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth.

Yn gywir

Helen Smith

e-bost: cbs032@bangor.ac.uk

# TUDALEN YR URDD

## Ymweliadau â Llangrannog -

Yn ystod mis Tachwedd bydd dros 600 o ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg ac ysgolion cyfun yr ardal yn ymweld â Gwersyll yr Urdd, Llangrannog i fwynhau'r gweithgareddau a blasu'r awyrgylch. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi dechrau ar adnewyddu'r Ganolfan a thros y ddwy flynedd nesaf bydd cabanau cysgu newydd yn cael eu hadeiladu yn ogystal â chanolfan hamdden, pwll nofio a chae chwarae aml-bwrpas.

## Chwaraeon



Yn ystod y tymor nesaf byddwn yn cynnal cystadlaethau chwaraeon amrywiol ar hyd ac ar led yr ardal - nofio, pêl-rwyd, rygbi, pêl-droed merched a bechgyn a hoci. Bydd nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan. Gwyliwch y gofod hwn am y canlyniadau.

**Cofiwch am safle'r Urdd ar y we - mae manylion y gweithgareddau uchod i gyd yno ynghyd â lluniau a rhestr lawn o weithgareddau'r Urdd yn yr ardal hon dros y flwyddyn nesaf: www.urdd.org**

James Rhys Williams
Swyddog Datblygu Caerdydd a'r Fro
Urdd Gobaith Cymru
**(029 20 80 33 54)**

## Gweithgareddau Hanner Tymor -

Yn ystod wythnos hanner tymor cafodd disgyblion ysgolion cyfun Glantaf, Plasmawr a Bro Morgannwg gyfle i dreulio diwrnod cyffrous a llawn hwyl ym mharc antur Alton Towers. Teithiodd bron i 50 o blant y brifddinas lan yr M5 i Swydd Stafford i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cyffrous yn enw'r Urdd. Tra'r oedd y disgyblion Uwchradd yn Alton Towers bu plant yr ysgolion cynradd yn blasu cyffro canolfan Chessington World of Adventure lle buont yn mwynhau'r reids trwy'r dydd.

## Ysgol Bêl-droed Hanner Tymor

Ddydd Llun a dydd Mawrth hanner tymor roedd cyfle i blant ysgolion cynradd Caerdydd wella eu sgiliau pêl-droed gyda chymorth hyfforddwyr profiadol clwb pêl-droed Dinas Caerdydd Braf oedd gweld tua 100 o chwaraewyr brwdfydig yn efelychu bechgyn Marc Hughes. Tybed a welwn ni rai o blant yr Urdd yn Stadiwm y Mileniwm ryw ddydd?

Rhai o'r bechgyn yn dangos eu sgiliau.



# *CONFFETI*

Brawd mawr, brawd bach a thad, ac mae un ohonynt yn priodi. Daw teulu ynghyd i ddathlu priodas. Mae'r cwrw a'r atgofion yn llifo; yr holl freuddwydion, yr amseroedd da, y siomedigaethau a'r brad. Bydd areithiau, fel sy'n arferol mewn priodasau - o'r llwyfan wrth gwrs, ond hefyd o'r tŷ bach!

Dyna, yn fras, fydd cynnwys cynhyrchiad newydd sbon **Cwmni Theatr Arad Goch** a fydd ar daith yn ystod tymor yr Hydref. Mae ***Conffeti*** yn olrhain twf dau frawd yn eu harddegau. Helynt ar iard ysgol; gelynion; ffrindiau; cariad cyntaf, rhyw; siopa heb arian; gyrru heb gar; yfed ac ysmygu; chwerthin; ffraeo; ceisio goroesi; ceisio dychmygu dyfodol.

"Bydd ***Conffeti*** yn gynhyrchiad a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd o bobl ifainc a phobl hŷn hefyd" meddai Annette Davies, gweinyddydd y cwmni.

Mae ***Conffeti*** yn cael ei ddatblygu gan y cwmni dan gyfarwyddyd Sêra Moore Williams. Aelodau'r cast yw **Iwan Charles, Owain Llŷr Edwards** a **Rhys ap Trefor**. Mae Iwan a Llŷr yn wynebau cyfarwydd i'r sawl a welodd gynhyrchiad poblogaidd Arad Goch o Tafliad Carreg y llynedd.

Bydd perfformiad o ***Conffeti***, sy'n addas i bawb dros 12 oed, yn **Ysgol Glantaf** ar nos Fercher 20 Tachwedd am 7.30yh. I archebu tocynnau ymlaen llaw, ffoniwch 029 20333090. Cefnogir y ddrama gan gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Panel Ieuenctid Capeli Cymraeg Caerdydd**
Gweithgaredd Tymor yr Hydref
**Profiad Indiaidd**
Dydd Sul, 1 Rhagfyr 2002

Cyfarfod yn festri Salem, Treganna rhwng 12.00 – 12.30 am tua ¾ awr o weithgareddau yn seiliedig ar Yr India.

Ymlaen i'r Bengal Brasserie yn Nhreganna erbyn 1.30 am bryd o fwyd Indiaidd.
Dewis o 3 / 4 prif gwrs + poppadumiaid a siwtni!
Llogwyd ystafell ar gyfer 80.
Cost y bwyd: **£6.50** (diod yn ychwanegol).

Cysylltwch â'r person sydd yn cynrychioli'ch capel/eglwys ar y panel erbyn nos Sul 24 Tachwedd

# Plasmawr

## Taith i Fro Gŵyr - Gwobr Dug Caeredin

Ar ôl llenwi'r bysiau mini, fe adawon ni'r ysgol ar fore dydd Sadwrn, 13 Hydref. Er ei bod yn fore eithaf oer roedd y tywydd yn braf a doedd dim un cwmwl yn yr awyr. Ar ôl tua awr a hanner o deithio fe gyrhaeddom ein man cychwyn, sef Swyddfa Bost Parkmill. Ar ôl cadarnhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir fe adawodd yr athrawon i ni adael, gyda'n bagiau trwm ar ein cefnau!

Fe gerddon ni am tua wyth milltir dros dir eithaf gwastad gan ddilyn yr arfordir cyn cyrraedd y maes gwersylla ym Mhort Einon. Yno, fe wnaethom osod ein pebyll a choginio ein swper cyn mynd i'r gwely!

Y bore trannoeth roedd y tywydd wedi troi'n wael iawn. Fe ddihunais i sŵn y glaw yn pistyllio'n drwm ar fy mhabell. Cawsom frecwast sydyn cyn brwydro yn erbyn y tywydd garw i bacio'r pebyll! Yna, roeddem ni ar ein ffordd unwaith eto, gan ddilyn yr arfordir am tua saith milltir, cyn cyrraedd Canolfan Ymwelwyr Rhosili. Roedd hi wedi bwrw glaw'n drwm iawn yr holl ffordd yno ac yn y bws mini ar y ffordd nôl roedd pawb yn wlyb iawn ac wedi blino. Er bod y diwrnod olaf wedi bod yn erchyll fe wnes i fwynhau'r daith a'r profiad yn fawr iawn.

**Owain Bevan (Blwyddyn 11)**

## Taith Blwyddyn 7 i Langrannog

Ar fore'r unfed ar bymtheg o Fedi, fe adawodd tri bws o Ysgol Plasmawr am Langrannog. Fe gymerodd y daith ychydig dros ddwy awr i un bws ond fe aeth y ddau fws arall ar goll! Yn ystod yr amser roedden ni yno fe gafodd pawb y cyfle i wneud pob math o weithgareddau. Dysgodd pawb sut i wneud, neu ddefnyddio'r gweithgareddau ac wedyn cawsom y cyfle i joio!

Mae'r gweithgareddau'n llawn hwyl ac yn amrywiol hefyd – merlota, sgïo, gwibgartio, cwrs rhaffau, 'Quads', nofio a llafnrolio. Cefais i a fy ffrindiau hwyl wrth wneud pob gweithgaredd. Ymunodd ambell athro yn y gweithgareddau fel Mr Williams ar y cwrs rhaffau!

Yn ystod y pum niwrnod roeddwn i yno, aethom allan o'r gwersyll unwaith ar daith gerdded i bentref Llangrannog. Fe chwaraeon ni ar y traeth am ychydig ac wedyn cafodd pawb y cyfle i fynd i'r siopau i brynu anrhegion. Fe wnes i lawer o ffrindiau newydd yn ystod yr wythnos.

Ar y dydd Iau roedd pawb ychydig yn drist oherwydd dyna oedd ein diwrnod llawn olaf yn y gwersyll. Cawsom ddewis pedwar o'n hoff weithgareddau felly roedd pawb yn hapus. Gyda'r nos roedd yna ddisgo – Mr Jones oedd y DJ grwfi, gyda help disgyblion Blwyddyn 12. Fe gawsom amser grêt!

Ffarweliodd pawb â Llangrannog ar fore Gwener, 20 Medi, wedi cael amser gwych ac aethom adref gydag atgofion braf. Diolch i'r holl athrawon, aelodau Blwyddyn 12 a staff Llangrannog am drefnu'r cyfan.

**Tanwen Menai Rolph (Blwyddyn 7)**

## Drama – 'Perthyn'

Ar brynhawn dydd Iau, 26 Medi aeth nifer o ddisgyblion Blwyddyn 11 i Theatr y Sherman i weld y ddrama 'Perthyn' gan Meic Povey. Drama oedd hi am losgach – perthynas rywiol rhwng merch a'i thad. Roedd hi'n ddrama ddifrifol, deimladwy ac un oedd yn cyffwrdd eich cydwybod. Mae'r disgyblion sy'n astudio Drama yn yr ysgol yn bwriadu creu adolygiad ohoni fel darn o waith cwrs. Fe gawsom brynhawn diddorol a defnyddiol er ein bod y tua allan i bedair wal yr ystafell ddosbarth.

**Anwen Lewis a Bethan Pickard (Blwyddyn 11)**

## Taith i Lundain

Ar 27 Medi roedd arddangosfa Dylunio o'r enw '100% Design' ymlaen yn Llundain ond yn anffodus oherwydd eu rheolau nhw nid oedd disgyblion ysgol yn cael ei mynychu. O ganlyniad, aethom o gwmpas nifer o'r arddangosfeydd eraill oedd yn cael eu cynnal ar y cyd mewn siopau o gwmpas Bond Street, Tottenham Court Rd a Great Portland Street. Yn y prynhawn, roedden ni wedi prynu tocynnau i fynd ar daith bws gyda'r dyfeisiwr Trevor Bayliss sef dyfeisiwr y 'wind up radio', a oedd yn siarad am wahanol adeiladau o'i ddewis ef. Er bod y rhan yma o'r dydd braidd yn siomedig fe fwynheuom y daith yn fawr iawn.

**Joe Calvin-Thomas (Blwyddyn 12)**

---

*o dudalen 1*

Daeth tro ar fyd pan sefydlwyd ysgol Gymraeg fore Sadwrn yn Nhŷ'r Cymry. Arweiniodd hyn at sefydlu Ysgol Gymraeg Bryntaf a sefydlwyd yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf yn y ddinas yn festri Capel y Crwys yn sgil agor Bryntaf.

Yna, ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf sefydlwyd Aelwyd yr Urdd a heidiodd ieuenctid y ddinas iddi. Ffurfiwyd côr cymysg o gant a hanner o bobl ifanc a sefydlwyd tîm rygbi a ddaeth wedi hynny yn Glwb Rygbi Cymry Caerdydd. Cynhaliwyd dosbarthiadau Cymraeg i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd Caerdydd. Ehangwyd addysg feithrin Gymraeg yn y ddinas ac arweiniodd hyn yn ei dro at yr angen am fwy a mwy o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd Cymraeg.

Daeth Canolfan yr Urdd yn ganolbwynt i ddysgu Cymraeg i oedolion a'r athrawon yn rhoi o'u hamser a'u gwasanaeth yn gwbl wirfoddol. Welodd golygydd Barn mo'r newidiadau hyn, newidiadau pwysig yn nhwf Cymreictod y ddinas. Dyna'r ochr olau na soniodd y bonwr Brooks fawr amdano yn ei erthygl ddilornus. Na, mi ganolbwyntiodd ar yr ochr dywyll gan baentio darlun unochrog iawn o'r sefyllfa.

Ond, a oes elfen o wirionedd yn yr hyn a draetha, yn arbennig wrth gystwyo'r genhedlaeth iau y mae'n aelod ohoni? Teimlaf fod Cymreictod i lawer ohonyn nhw yn arwynebol iawn ac er bod yr iaith ar eu gwefusau dydy'r iaith ddim yn eu calonnau a does fawr ddim tân yn eu boliau fel yr oedd flynyddoedd yn ôl pan aethpwyd ati i sefydlu'r cymdeithasau ac ati y cyfeiriwyd atynt eisoes. Y diffyg argyhoeddiad ac ymrwymiad hwn yn y bôn ydy'r rheswm nad ydy eu dylanwad yn fwy ar y ddinas lle y'u magwyd neu a ddaeth yn gartre iddyn nhw.

Efallai y gwnaeth golygydd Barn gymwynas â ni mewn gwirionedd sef ein sbarduno i wneud mwy dros ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus a chymdeithasol Caerdydd. Mae Caerdydd yn filltir sgwâr i nifer cynyddol o Gymry Cymraeg a gobeithio y bydd yr ychydig sylwadau hyn yn ysbrydoliaeth i lawer mwy o bobl, a'r to iau yn enwedig, i ystyried eu safle a phenderfynu sefyll yn y bwlch er mwyn gadael eu marc ar ein prifddinas - fel y gwnaeth y genhedlaeth neu ddwy a'u blaenorodd.

**Gwilym E. Roberts**

# Glantaf

## Shakespeare i Ysgolion



Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama 'Shakespeare i Ysgolion' ar draws Cymru gyfan rhwng 1-17 Hydref er mwyn dod â'r cwricwlwm yn fyw i ddisgyblion hyd at flwyddyn 10. Gwahoddwyd disgyblion Blwyddyn 10 Glantaf sy'n astudio Drama i gymryd rhan mewn gweithdy sampl yn yr Hen Lyfrgell fel rhan o lansio'r ŵyl ar 17 Medi yng ngwydd Jenny Randerson AC. Cychwynnodd y syniad ddwy flynedd yn ôl yn Sir Benfro gyda sampl fechan o ysgolion, a symudodd i Lundain gyda 60 ysgol yn cymryd rhan y llynedd. Eleni, fel rhan o'r ŵyl, mae disgyblion o dros 100 o ysgolion ledled Cymru yn cael y cyfle i berfformio cywasgiad hanner awr o ddramâu amrywiol gan Shakespeare ar lwyfan proffesiynol. Mae'r holl offer yn ogystal â thechnegwyr y theatr ar gael iddynt. Perfformiodd holl ddisgyblion Drama Blwyddyn 10 Glantaf y ddrama 'Breuddwyd Noswyl Ifan' ar Nos Lun 7 Hydref a chafwyd ymateb ffafriol dros ben i'w cyflwyniad caboledig. Braf iawn oedd gweld ystod eang o ddisgyblion yn cydweithredu ac yn mwynhau y profiad unigryw hwn.

## Disgyblion Glantaf yn y Llys!

Mae disgyblion o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn paratoi i gymryd rhan yng nghystadleuaeth "Citizenship Foundation National Mock Trial". Mae'r disgyblion 16-18 oed, ar hyn o bryd yn y chweched dosbarth a byddant yn actio dau achos llys gwahanol. Cystadleuaeth ar gyfer ysgolion y Deyrnas Unedig yw hon a chynhelir y rownd gyntaf ar 9 Tachwedd yn Llys y Goron, Caerdydd.

Yn ôl Mrs Rebecca Jones, hyfforddwr y tîm, "mae'r gystadleuaeth yn rhoi profiad byw i bobl ifanc o'r system gyfreithiol Brydeinig. Er bod y profiad wedi bod yn un addysgiadol rydym wedi cael llawer o hwyl wrth ddod â'r tystion, y bargyfreithwyr, y clerc a'r rheithgor yn fyw!"

Os yn llwyddiannus yn Llys y Goron, bydd y tîm yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol yng Nghaeredin. Pob hwyl iddyn nhw!

## Llangrannog


Wythnos o gymdeithasu yn y Gymraeg ac amser bythgofiadwy! Taith ddigon hir a chyffrous oedd y daith i wersyll Llangrannog, ac yr oeddwn yn teimlo ychydig yn sâl wrth deithio ar y bws. Ond o'r diwedd dyma ni ger y môr hyfryd a'r haul yn tywynnu'n braf.

Roedd pob math o weithgareddau yno, sgïo, llafnrolio, gwibgartio, nofio, heb sôn am y trip cerdded i'r traeth, y twmpath, y disgo a'r caru oedd yn digwydd bob yn ail noson! Ychydig o gwsg ges i yn ystod yr wythnos, ond doedd dim ots o gwbl. Cawsom lawer o hwyl a sbri yn enwedig ar Noson y Swogs a'r Noson Lawen!

Cyrhaeddodd y diwrnod olaf ac roedd pawb wedi cael amser anhygoel wrth fynd o un gweithgaredd i'r llall. Sgïo oedd y gweithgaredd olaf a wnes i cyn mynd adref. Y noson honno meddyliais pa mor bwysig oedd y trip yma i Flwyddyn 7, oherwydd roedd yr athrawon eisiau i ni adnabod ein ffrindiau yn well. Ar y ffordd adref teimlais yn drist iawn oherwydd roedd yr wythnos ar ben!

Roedd y trip i Langrannog yn un llwyddianus iawn ac rwy'n siwr fod pawb yn flinedig wrth fynd adref drwy giatiau'r ysgol.

**Dyfed Cynan 11oed**



Yn y llun hwn mae rhai o athrawon a disgyblion Ysgol Gyfun Glantaf yn cael tipyn o hwyl ar y wibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Yn rasio'i gilydd mae Mr Keri Evans (Pennaeth Blwyddyn 7) a Rhys Blumberg, un o swyddogion Chweched Dosbarth amlycaf yr wythnos.

Ar y gwaelod (o'r chwith i'r dde) mae Ffion Perrett, Ffion Williams a Laura Lee.



## Hedd Wyn a'r Ffosydd

Yn ddiweddar aeth 46 o fyfyrwyr TGAU Hanes a rhai o'u hathrawon ar daith i ymweld â ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Nod y daith hon oedd atgyfnerthu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y disgyblion ar gyfer eu gwaith cwrs TGAU a buont yn ymweld ag amgueddfeydd Ypres, bedd Hedd Wyn a'r ffosydd.

Roedd canmol mawr i'r disgyblion a chafwyd penwythnos hynod o lwyddiannus.

Y disgyblion ym mynwent Tyne-Cot.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Fel bydd llawer ohonoch chi yn ei wybod yn barod, prif amcan CYD yw dod â dysgwyr a Chymry Cymraeg at ei gilydd. Mae hyn yn haws mewn rhai ardaloedd nag eraill. Weithiau mae'r ddau grŵp yn gallu bod yn swil. Mae'n hawdd deall bod dysgwyr yn teimlo'n ofnus na fydd eu Cymraeg yn ddigon da i gynnal sgwrs, ond weithiau ar ran y Cymry Cymraeg mae'r diffyg hyder. Yn aml rydych chi'n eu clywed nhw'n honni nad yw eu Cymraeg nhw yn ddigon da i'r dysgwyr! Wrth ddweud hyn, wrth gwrs, beth maen nhw'n ei feddwl yw nad ydyn nhw'n siarad fel llyfr. A dyna, wrth gwrs, pam mae hi'n gwneud cymaint o les i ddysgwyr eu clywed. Prif bwrpas iaith yw siarad, cyfathrebu, dod i mewn i fyd y Cymry.

Yn fwy, efallai, nag unrhyw iaith ewropeaidd arall, beth sy'n bwysig yn Gymraeg yw cywair - sut rydych chi'n siarad a phryd. Mae un math o iaith ar gyfer y dosbarth, un ar gyfer llyfrau, ond un hefyd ar gyfer byw bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg. A dyw hi ddim yn bosibl dysgu'r iaith honno mewn unrhyw ffordd arall ond drwy gwrdd a chyfathrebu â'r bobl sy'n ei siarad yn naturiol.



Os ydych chi'n ddysgwr, peidiwch â disgwyl i Gymro Cymraeg wybod beth yw'r Gymraeg am "Estate Agent", neu pam nad oes to bach ar y gair "Gwe", ond dewch i siarad ac i fwynhau. Os taw Cymro Cymraeg neu Gymraes Gymraeg ydych chi, peidiwch ag ofni siarad yr un iaith â dysgwyr ag y byddech yn ei siarad â Chymry eraill - efallai bod rhaid i chi ynganu'n gliriach a siarad ychydig yn arafach, a bod yn barod i ailadrodd ambell beth, ond gydag ychydig o amynedd mae dod i adnabod y rhai sy'n gwneud yr ymdrech i ddysgu'n hiaith yn gallu bod yn werth chweil. A phwy a ŵyr, mae 'na rai dysgwyr sydd yn gwybod pam nad oes to bach ar "gwe"!

Yn Aberystwyth, yn ddiweddar, mae CYD wedi bod yn trefnu i Gymry Cymraeg fynd i mewn ar ddiwedd dosbarth Cymraeg i gynnal sgwrs fach. Er nad oes cynllun ffurfiol hyd yn hyn yng Nghaerdydd, rwy'n siŵr byddai'ch canolfan dysgu Cymraeg agosaf yn falch o glywed gennych os ydych chi'n siaradwr rhugl a hoffai fod o gymorth.

**Geirfa**

dod â phobl at ei gilydd - *bring people together*
swil - *shy*
cynnal sgwrs - *to hold a conversation*
diffyg hyder - *lack of confidence*
gwneud cymaint o les - *be so advantageous*
cyfathrebu - *communicate*
cywair - *level, tone of a language*
trwy gyfrwng y Gymraeg - *through the medium of Welsh*
ailadrodd - *repeat*
ambell beth - *a few things*
amynedd - *patience*
ymdrech - *effort*
yn werth chweil - *worthwhile*
cynllun - *plan*

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon

I lawer ohonoch mae'r tymor garddio yn dirwyn i ben, a byddwch yn edrych ymlaen i roi'r peiriant torri gwair a'r teclynau eraill yn y sied am ychydig. Ond cyn gwneud hynny, cofiwch os ydych am wledd o liw yn y gwanwyn, nawr yw'r amser i blannu bylbiau o bob math. Hydref a Thachwedd yw'r amser delfrydol i blannu bylbiau tiwlip. Mae'r canolfannau garddio yn llawn o bob math ohonynt - digon i'ch drysu yn wir. Gallwch gael rhai byr neu rai tal, rhai'n blodeuo ym mis Mawrth neu ym mis Mai, sengl neu ddwbl, un pen neu sawl pen i bob coes a bron bob lliw dan haul hefyd. Felly, ble mae dechrau?

Mae rhai yn gweld tiwlips fel blodau i'r parciau cyhoeddus yn unig, wedi eu plannu mewn gwelyau ffurfiol gyda nad-â'n-angof neu flodau mam-gu, ond gyda'r holl amrywiaeth sydd i'w gael a gydag ychydig o ddychymyg gallant fod yn rhan o'r border bach hefyd.

Un o'r cynharaf i flodeuo a brynaf yw'r math "Fusilier' sydd â sawl pen lliw sgarled ar bob coesyn ac felly yn creu golwg mwy anffurfiol. Un coch arall yw 'Red Riding Hood' sydd ychydig yn dalach ac yn blodeuo yn Ebrill, ond mae ganddo ddail dau liw sy'n ychwanegu at y diddordeb. Mae'r tiwlips byr yma yn dda mewn potiau ac yn gwrthsefyll tywydd gwyntog.

Ar gyfer y border gallwch gael dilyniant o flodau pob lliw o Ebrill ymlaen, e.e. Purissima (gwyn, sengl), Monte Carlo (melyn dwbl), Apricot Beauty ('peach sengl), Peer Gynt (pinc, sengl), Blue Diamond (porffor, dwbl), Black Swan (lliw cwrens duon, sengl), Valentine (pinc a gwyn), Shirley (porffor a gwyn). Yna, mae'r mathau mwy diweddar fel y 'parrot tulips' sydd â phetalau ag ymyl fel plu aderyn ac yn gallu bod mewn lliwiau llachar. Ond gwell gen i'r math o lili sy'n fwy gosgeiddig gyda'i ganol main fel West Point (melyn) a Maytime (porffor).

Beth bynnag fydd eich dewis, prynwch y bylbiau mwyaf eu maint, fe fyddant yn werth y gost ychwanegol. Gwnewch yn siŵr eu bod yn iach a phlannwch nhw'n ddwfn, o leiaf chwe modfedd o ddyfnder. Un rhybudd arall - gochelwch y gwiwerod! Maen nhw'n hoff o'r bylbiau hefyd, ac fe wnânt eu bwyta o dan eich trwyn, felly rhowch rwyd drostynt i'w diogelu.

Os nad ydych yn siŵr pa un yw'r lle gorau i'w plannu, rhowch nhw mewn potiau plastig ac yna pan fyddant yn eu blodau, gallwch eu suddo yn y border fel y bo'r galw.



# Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Iau, 14 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs am y Sioni Winwns gan Gwyn Griffiths, Pontypridd. Manylion pellach: 029-2065-7730 neu 029-2062-4878.

**Iau, 14 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Y Beirdd yn Cofio.' Sgwrs gan y Parch. Meurig Llwyd Williams, yng nghapel Bethel am 7.30 p.m.

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais am 7.00p.m. Penny Readings, trefnydd: Bryn Evans, Archdderwydd: Denzil John

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Merched ym Maledi'r 18fed Ganrif.' Darlith gan Dr Siwan Rosser yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Arch Noa.

**Sadwrn, 16 Tachwedd**
Ysgol Undydd Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd: 'Agweddau ar Addysg, Crefydd a Diwylliant yng Nghymru.' Darlithoedd yn theatr Eglwys y Crwys, Heol Richmond, rhwng 9.30 a 4.30. Manylion pellach gan y trefnydd, yr Athro John Gwynfor Jones (029-2087-6874).

**Llun, 18 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yng nghwmni Garwyn Davies, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Cofnodi yn y Cynulliad.' Sgwrs gan Dr Kathryn Jenkins, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Goleuo'r Ffordd drwy Rwydwaith Draffig y Gell.' Darlith gan Dr Arwyn Jones (Ysbyty'r Brifysgol), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Seiat Holi yng nghwmni Eleri Rogers, Rachel Williams, Tim Pierce ac Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad ar enwau lleoedd gan B. D. Harries yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Iau, 21 Tachwedd**
**CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD. Cyfarfod cyhoeddus yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.**

**Sadwrn, 23 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais am 10.00a.m. Ffair Nadolig

**Sadwrn, 23 Tachwedd**
Ffair Nadolig Ysgol y Wern, Heol Llangrannog, Llanisien, o hanner dydd tan 3 o'r gloch. Mynediad 50c (yn rhad ac am ddim i blant). Amrywiaeth o stondinau a gweithgareddau, ac wrth gwrs bydd Siôn Corn yna! Manylion pellach: 029-2075-5872.

**Mawrth, 26 Tachwedd**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Noson yng nghwmni Myfanwy Jarman, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Cyngerdd Sêr yn Salem gyda Chôr Llandaf ac eitemau amrywiol. Elw tuag at Apêl Bangladesh.

**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Ail Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Prifysgol Caerdydd: 'Y Cymry a Chaethwasanaeth yn yr Unol Daleithiau'. Darlithoedd yn Adran y Gymraeg, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: 029-2087-4843; cymraeg@caerdydd.ac.uk.

**Llun, 2 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Prif westai: Glyn Powell, a fydd yn adrodd hanes methiant yr awdurdodau dŵr i foddi Cwm Senni yn y 1970au a hanes arwrol pobl y fro i amddiffyn eu treftadaeth. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais am 7.30p.m. Côr Cantemus, Llywydd Ceri Preece

**Mercher, 4 Rhagfyr**
Merched y Wawr (Bro Radur): 'Canhwyllau.' Sgwrs gan Hannah Roberts. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Dr R. Alun Evans ar 'Y Blygain ym Maldwyn', yn theatr Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.15 p.m.

**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Hamdden Caerdydd (Arweinydd: Eulonwy Jones), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Ysbyty Felindre.

**Sadwrn, 7 Rhagfyr**
'Taith y Saith Sant'. Saith o feirdd yn darllen eu barddoniaeth mewn sioe a drefnir gan yr Academi yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30 p.m. Tocynnau: £4. Manylion pellach: 029-2047-2266.

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Problemau Delos: Profion o Amhosibilrwydd ym Mathemateg Rhan II.' Darlith gan yr Athro James Wiegold (Prifysgol Caerdydd), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Swper bwffe i groesawu'r gweinidog newydd, y Parch. Owain Llyr Evans, a'i briod, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m. Y cyflwyniad yn nwylo Aled Gwyn a John Albert Evans.

**Mercher-Gwener, 11-13 Rhagfyr**
Dathlu'r 'Goeden Nadolig' yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: 'Cywair y Nadolig' gydag Eilonwy Jones, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
CYLCH CADWGAN 2002-03. LYN EBENEZER; yn siarad am brofiadau rhith awdur yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8p.m. Cydnabyddir cefnogaeth Yr Academi Gymreig

**Sadwrn 14 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais am 7.30p.m. Swper y Llanciau.

*Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*


## Ysgol Gyfun Rhydfelen

# CYNGERDD MAWREDDOG DATHLU 40

Nos Sadwrn, 14 Rhagfyr am 7.30pm

Oriel Prifysgol Morgannwg

***Mae'r ysgol yn 40 mlwydd oed eleni. Dewch i ddathlu!***

Mae croeso i bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol o'r dyddiau cynnar arloesol hyd at heddiw, yn wir, holl deulu Rhydfelen.

Artistiaid o safon
*(gan gynnwys nifer o gyn-ddisgyblion),*
lluniaeth ysgafn,
a gŵr gwadd - Mr Gwilym Humphreys.

Pris y tocyn :: £10.00

I gael tocynnau, anfonwch siec yn daladwy i:
'Ysgol Gyfun Rhydfelen'
erbyn 30 Tachwedd.
Cyfeiriad: Rhodfa Glyndŵr, Rhydyfelin,
Pontypridd CF37 5NU
Rhif ffôn: 01443 486818

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

## AR WERTH

Telyn Bedal Pilgrim Progress

41 Tant

£4,500

yn cynnwys gorchudd a stôl

Ffoniwch:

01443 222417

*Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

# AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

